


# Gofyn diferyn o fir

## EURIG SALISBURY

Pan ddaw criw o garolwyr heibio'r Nadolig hwn, rhowch bunt neu ddwy yn y tun, ar bob cyfri, ond rhowch arhelig arall iddyn nhw hefyd: cwrw! Dyna'r hen arfer yng Nghymru, a dyma un arall: noddwch fardd i lunio geiriau i garol newydd sbon. Ganrifoedd yn ôl, nid canu medli o hen ffefrynnau oedd y drefn, ond canu geiriau newydd bob blwyddyn, a gallai'r Nadolig fod yn gyfnod hynod o brysus i fardd.

Y prif waith oedd canu carolau plygain – cerddi'n adrodd hanes bywyd Crist a genid mewn eglwysi ar fore Nadolig o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen – ond roedd canu carolau yn y drws yn boblogaidd hefyd mewn rhannau o'r gogledd. Ar un olwg, mae i'r carolau Nadolig fwy o apêl heddiw na'r carolau plygain am eu bod, yn un peth, yn llawer byrrach. Fe'u cenid yn yr awyr agored, wedi'r cyfan, ganol gaeaf noethlwm! Ac mae'r elfen ymarferol – ymweld â chymdogion, dathlu'r geni a chyfnewid rhoddion – yn ddrych agos i'r ysbryd cymdogol hael a chroesawgar sy, efallai, wedi dod i nodweddu'r Nadolig modern yn anad dim arall.

Ystyrir Huw Morys (1622–1709) o Bontymeibion yn Nyffryn Ceiriog y mwyaf o feirdd yr ail ganrif ar bymtheg ac, er ei fod yn enwocach fel awdur carolau plygain a charolau haf – math arall o gerdd a genid yn y drws, y tro hwn ar galan Mai – ceir wrth ei enw ddyrnaid o garolau Nadolig.



Plant-Glas Isaf

Cofnodwyd dwy ohonynt mewn llawysgrif bwysig (DD/DM/533/1) a gedwir yn Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn Rhuthun, lle ceir hefyd lawer o gerddi eraill gan Huw, a dwy yn ei law ei hun. Lluniwyd y llawysgrif c.1690–5, naill ai ym Mhant-glas Uchaf neu ym Mhant-glas Isaf ym mhlwyf Llangadwaladr ger Llansilin, nid nepell o gartref Huw, a rhaid bod y carolau wedi eu canu dan barwydydd yr ardal honno. Mae Pant-glas Isaf, fel mae'n digwydd, yn gartref heddiw i chwaer fy mam, Iona, arweinydd Côr Llansilin, a saff dweud fod y croeso yno i feirdd a cherddorion mor hael ag erioed.

Mae eleni'n bedwar canmlwyddiant geni Huw, a pha ffordd well i dathlu'r Nadolig na thrwy ailgodi geiriau un o'i garolau Nadolig? Cofnodwyd yr unig gopi hysbys o'r gerdd isod ar ddalen 12' y llawysgrif gan ŵr o'r enw Tomas

Edward, perchennog Pant-glas – does wybod pa un, ar hyn o bryd – ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Cerdd syml yw hi ar fesur y tri thrawiad sengl, a chynganeddion yn frith drwyddi. At y brenin Wiliam III, a ddaeth i rym yn 1689, y cyfeirir yn llinell 14. A'r brif thema? Chwiliwch am y gair allweddol sy i'w weld ym mhob un pennill!

### Geirfa:

*bwrw*, 5, taflu ymaith. *cadw*, 1, dathlu. *cofion'*, 6, cofiont (trydydd person lluosog dibynnol dyfodol 'cofio', gyda grym y ffurf orchymynol, 'boed iddynt gofio'). *cwmpeini*, 19, tyrfa, llu. *cyfarwydd*, 7, gwybodus, medrus. *cyfion*, 6, cyfiawn, teg. *cylonnog*, 24, calonnog. *cynnal*, 3, rhoi cynhaliaeth, porthi. *dedwydd*, 10, gwynfydedig, ffodus. *diddanydd*, 10, cysurwr (Crist). *ffinio*, 3, dirwyo, cosbi. *gwared*, 11, gwaredu, achub. *gysteg*, 21, gosteg, seibiant, gwrandawriad. *lloned*, 8, llond, mesur llawn. *lluosog*, 23, niferus, amlddoniog. *mwys eirie*, 18, geiriau huawdl. *pryd cinio*, 3, amser cinio. *rhowiog*, 23, rhywiog, o safon uchel, iach. *sawl*, 5, rhai. *yntho*, 8, ynddo.

## CAROL I'R GWYLIE

Y gŵr gostyngedig, i gadw'r Nadolig  
Y nos yn garedig a diddig y dydd,  
Nid ellir eich ffinio er cynnal bryd cinio  
4 Yn llonwch a llunio llawenydd.

Y sawl sydd yn bruddion dan fwrw'u peryglon,  
Cofion' Dduw cyfion, pob Cristion a'i cred;  
Ond chwilio'n gyfarwydd y Testament Newydd,  
8 Cân' yntho lawenydd ei loned.

Penna' llawenydd i'w gofio'n dragowydd  
Oedd eni'n diddanydd yn ddedwydd i ddydd;  
Trwy Grist sydd i'n gwared, ein dyledion a daled  
12 I'n dwyn o law galed y gelyn.

Mae'r byd yn heddychlon heb arswyd gelynyon,  
An brenin yn ffrwythlon, wir ffynnon i'r ffydd;  
Pob Cristion a ddyle roi moliant am wylie,  
16 A chanu ar ei linie o lawenydd.

Y gŵr da'i gynneddfe, chwi a wyddoch a wedde:  
Amal blesere a mwys eirie yma sydd  
I'n harwain yn heini un fath â chwmpieini  
20 O adar y llwyni i'r llawenydd.

Mae yma wraig landeg a'i chroeso'n iach ysteg,  
A chwrrw'n ychwaneg ar redeg a rydd;  
Ffrwyth yr haidd rhowiog a'n gwnaiff yn lluosog  
24 I lunio'n gylonnog lawenydd.

### HUW MORYS